Comisiwn Coedwigaeth Cymru a The British Horse Society Cymru

Concordat

Concordat ar y cyd
rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru
a The British Horse Society Cymru

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

The British Horse Society
Cymru
Registered Charity No. 210504

Adolygiad Cyntaf 16 Mehefin 2006
Ail Adolygiad 1 Mehefin 2008

Diben y Concordat hwn yw cryfhau'r cydweithredu rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru a The British Horse Society Cymru wrth iddynt hyrwyddo mynediad ceffylau i Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

-

1. Cyflwyniad

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithredu fel Adran Goedwigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn adrodd i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig. Mae nodau Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnwys rheoli Coetiroedd y Cynulliad i sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol a geisir gan Weinidogion i gynorthwyo i gyflawni amcanion **Coetiroedd i Gymru**, Strategaeth y Cynulliad ar Goetiroedd a Choed.

The British Horse Society Cymru yw adain Cymru The British Horse Society sef y corff aelodaeth marchogaeth ceffylau mwyaf blaenllaw yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu'n bennaf ar gyfer y cyhoedd sy'n marchogaeth er mwyn hamdden. Hwn hefyd yw'r corff llywodraethol ar gymwysterau proffesiynol i'r rhai sydd am addysgu yn y diwydiant ceffylau.

Mae'r Gymdeithas yn dymuno:

- Gwella mynediad i lwybrau marchogaeth diogelach oddi ar y ffordd yng nghefn gwlad a mannau gwyrdd trefol ar gyfer y cyhoedd sy'n marchogaeth a gyrru ceir ceffylau;

- Gwneud marchogaeth yn weithgaredd diogelach, gan gynnwys marchogaeth ar y ffyrdd;

- Gwella ymwybyddiaeth am anghenion y ceffyl a'i farchogwr.

Mae The British Horse Society yn arwain yn ganolog ar draws ystod eang o bynciau, yn enwedig ar fynediad a hawliau tramwy.

2. Darparu Mynediad

<u>Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn:</u>

- Caniatáu mynediad agored, lle nad oes angen rheolaeth i reoleiddio mynediad ac nad oes cyfyngiadau yn codi o gyfyngiadau teitlau, gweithrediadau, amgylcheddol neu faterion eraill, i farchogwyr ceffylau anfasnachol i holl Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru dan reolaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae hyn yn eithrio llwybrau troed swyddogol defnydd sengl, llwybrau beicio, llwybrau cerdded a llwybrau pob gallu.

- Am ffi resymol, rhoi caniatâd i farchogwyr anfasnachol gael mynediad i goetiroedd lle mae angen rheolaeth er mwyn rheoleiddio defnydd.

- Lle nad yw rheoli mynediad yn broblem, roi caniatâd i fentrau masnachol ar gyfradd fasnachol gytunedig yn unol â lefel eu gweithgaredd busnes.

- Lle nad yw rheoli mynediad yn broblem, cynnig cyfle i fusnesau marchogaeth ceffylau a merlota, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig anghysbell, gefnogi Strategaeth Twristiaeth Marchogaeth Ceffylau Croeso Cymru (Bwrdd Croeso Cymru gynt) "Cyfrwyo dros Lwyddiant", ac ar y cyd â datblygiadau hamdden a masnachol a strategaethau twristiaeth eraill.

- Drwy ganiatáu mynediad caniataol, cydweithredu wrth gysylltu llwybrau ceffylau cyhoeddus a llwybrau caniataol lle mae'r llwybr arfaethedig yn rhan o lwybr drwodd, yn mynd dros dir ym mherchenogaeth cymdogion, a lle nad yw hyn yn gwrthdaro â datblygiadau hamdden a masnachol eraill.

Bydd The British Horse Society Cymru yn:

- Cefnogi polisi Comisiwn Coedwigaeth Cymru o ddarparu mynediad agored a chaniataol yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd y ddau gorff yn:

- Cefnogi Nod 5 (Cynyddu mynediad i farchogaeth oddi ar y ffordd a gyrru ceir ceffylau) y 'Strategaeth i'r Diwydiant Ceffylau yng Nghymru a Lloegr' gan Gydffederasiwn Diwydiant Ceffylau Prydain.

- Gweithio gyda'i gilydd i ddatrys materion ynghylch mynediad modur anghyfreithlon yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi eu pennu'n ardaloedd mynediad agored i farchogwyr ceffylau.

3. Hyrwyddo Defnyddio a Mwynhau Coetiroedd

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn:

- Ar y cyd â grwpiau defnyddwyr eraill, paratoi gwybodaeth yn dangos lle mae mynediad marchogaeth ceffylau ar gael yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Lle bo'n gymwys, cynnwys llwybrau aml-ddefnydd a phenodedig gyda gwybodaeth fanylach a gwyriadau dros dro ac ailagor llwybrau gwreiddiol. Bydd hyn ar gael drwy wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru a bydd yn cynnwys dolenni i wefannau cysylltiedig gan gynnwys gwefan mapiau mynediad rhyngweithiol Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n dangos caeadau fel y'u pennir gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

- Hysbysebu a hyrwyddo'r Cod Ymarfer i Farchogwyr Ceffylau yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd The British Horse Society Cymru yn:

- Cyhoeddi cynllun mynediad agored Comisiwn Coedwigaeth Cymru i'w haelodau drwy gylchlythyrau, gwefannau a deunydd cyhoeddusrwydd arall fel bydd ar gael, gyda dolenni i wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

- Annog eu haelodau a marchogwyr ceffylau eraill i barchu diddordebau defnyddwyr eraill ar Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy lynu at y Cod Ymarfer cytunedig ar gyfer Marchogwyr Ceffylau yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4. Rheoli'r Defnydd o Goetiroedd a Llwybrau

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn:

- Annog ymagwedd gyfrifol a diogel at farchogaeth yn y goedwig drwy gynnwys ym mhob un o'u cyhoeddiadau y cod ymarfer a ddatblygwyd gyda The British Horse Society Cymru.

- Monitro'r defnydd ar lwybrau a choetiroedd am effaith amgylcheddol i gynorthwyo â rheoli cyfrifol ar Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Parhau i sicrhau lefel uchel o argaeledd mynediad i lwybrau ceffylau yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a symud yn brydlon unrhyw rwystrau neu drin unrhyw ddifrod a achosir gan weithgareddau'r Comisiwn Coedwigaeth.

- Annog adborth gan ddefnyddwyr ar addasrwydd y llwybrau.

- Annog datblygu Cymdeithasau Marchogaeth Ceffylau *bona fide* i gynorthwyo â rheoli a datblygu llwybrau marchogaeth ceffylau a chyfleusterau cysylltiedig.

Bydd The British Horse Society Cymru yn:

- Cydnabod a pharchu anghenion rheolwyr Comisiwn Coedwigaeth Cymru i reoleiddio a gweithredu aml-ddefnydd ar Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Cadw mewn cysylltiad drwy Swyddogion Mynediad a Llwybrau Ceffylau Sirol The British Horse Society Cymru gyda staff lleol Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar faterion perthnasol. Os na ellir datrys materion yn lleol cyfeirir nhw drwy Swyddog Mynediad a Llwybrau Ceffylau Sirol The British Horse Society Cymru at Reolwr Rhanbarthau Coedwigo perthnasol Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

- Darparu gwybodaeth i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar y defnydd o ardaloedd mynediad agored, llwybrau aml-ddefnydd a phenodedig drwy arolygon a gyflawnir gan Swyddogion Mynediad a Llwybrau Ceffylau Sirol The British Horse Society Cymru a Chymdeithasau Marchogaeth Ceffylau

- Annog aelodau i roi gwybod am beryglon ar lwybrau a damweiniau/digwyddiadau i staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

- Annog cymdeithasau marchogaeth ceffylau *bona fide* i ganfod cyllid, mewn cydweithrediad â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ar gyfer datblygu ac ymestyn mynediad i farchogaeth ceffylau yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd y ddau gorff yn:

- Datblygu Cymdeithasau Marchogaeth Ceffylau lleol peilot i gynorthwyo gyda rheoli marchogaeth mewn ardaloedd lle mae angen rheoli er mwyn rheoleiddio defnydd.

- Cadw mewn cysylltiad ar faterion diogelwch a sicrhau bod asesiadau risg yn eu lle ar gyfer pob digwyddiad marchogaeth ceffylau, llwybrau aml-ddefnyddwyr a chyfleusterau penodedig yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

5. Datblygu Cyd-Ddealltwriaeth a Phartneriaethau

Bydd y ddau gorff yn:

- Ymgynghori â'i gilydd ynghylch datblygiadau a allai effeithio ar fuddiannau'r naill o'r ddau gorff.

- Ffurfio a chynnal perthnasoedd gweithio agos ar bob lefel ond yn enwedig rhwng staff lleol Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Swyddogion Mynediad a Llwybrau Ceffylau Sirol The British Horse Society Cymru ac aelodau Cymdeithasau Marchogaeth Ceffylau.

- Cynnal gweithdy bob yn ail flwyddyn rhwng yr holl bartïon sydd â diddordeb i gyfnewid profiadau a hyrwyddo dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o effaith gweithgareddau hamdden ar Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Hyrwyddo cyfranogiad cymunedol a chwilio am gyfle i gyfathrebu a gweithredu ar y cyd yn amlach.

- Trafod cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau a defnydd masnachol ar Goetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau lleol, gan edrych am ffyrdd i hyrwyddo "Cyfrwyo dros Lwyddiant" – Strategaeth Twristiaeth Ceffylau Cymru drwy adnabod meysydd twf posibl yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6. Rhoi ar waith

- Ni fydd unrhyw weithred sy'n codi o'r Concordat hwn yn drech na dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol yr un o'r ddau gorff.

- Bydd British Horse Society Cymru yn darparu rhestr o swyddogion cyswllt lleol i'w diweddaru'n rheolaidd.

- Bydd cynnwys y Concordat hwn yn cael ei gyfleu i staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac aelodau British Horse Society Cymru a phartïon eraill sydd â buddiant a bydd yn cael ei osod ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru..

- Bydd partneriaethau yn cael eu hannog a fydd yn hwyluso rhannu syniadau ac adnoddau a chydweithio er mwyn cryfhau amcanion ar y cyd a chynnig adborth i'r ddau barti.

- Bydd y ddau gorff yn cynnal cyfarfod bob dwy flynedd i adolygu cynnydd o ran gweithredu'r Concordat ac yn cytuno ar raglen o faterion neu fentrau allweddol i fynd i'r afael â nhw.

- Adolygir y Concordat bob pum mlynedd, gyda'r trydydd adolygiad i'w gynnal erbyn 30 Mehefin 2013.

Llofnodwyd gan:

Trefor Owen	Graham Cory
Cyfarwyddwr	Prif Weithredwr
Comisiwn Coedwigaeth Cymru	The British Horse Society

1 Mehefin 2008

COD YMARFER I FARCHOGWYR CEFFYLAU YNG NGHOETIROEDD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU A BARATOWYD GAN GOMISIWN COEDWIGAETH CYMRU A THE BRITISH HORSE SOCIETY CYMRU

CYFARWYDDYD

- Cadwch draw o lwybrau troed defnydd swyddogol, llwybrau beicio, llwybrau cerdded a llwybr pob gallu. Sicrhewch fod y llwybrau rydych am eu marchogaeth yn ddiogel a gwnewch yn siŵr fod yr ardal rydych am ymweld â hi yn agored naill ai drwy fynd at wefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru http://www.ccw.gov.uk/interactive-maps/countryside-access-map.aspx?lang=en ar gyfer caeadau presennol neu yn y dyfodol, fel y pennir gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, neu gysylltu â'r Swyddfa Rhanbarthau Coedwigo neu'r Rheolwr Ardal Lleol.
- Gwnewch gais am ganiatâd gan y Swyddfa Rhanbarthau Coedwigo neu'r Rheolwr Ardal Lleol os ydych am ddefnyddio ardal lle na cheir mynediad ond drwy ganiatâd (gweler y map ar wefan CC Cymru http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-62lh2s)
- Cofiwch fod rhai ardaloedd lle na cheir mynediad ond ar lwybrau penodedig – os oes amheuaeth cysylltwch â'r Swyddfa Rhanbarthau Coedwigo neu'r Rheolwr Ardal Lleol
- Parchwch ddefnyddwyr eraill yn y goedwig a byddwch yn gyfeillgar bob amser
- Cofiwch fod cerbydau yn defnyddio ffyrdd y goedwig
- Peidiwch â chodi neidiau na chlwydi na cheisio neidio pentyrrau coed
- Dilynwch y Cod Cefn Gwlad
- Rhowch wybod am ddamweiniau neu ddamweiniau agos i'r Swyddfa Rhanbarthau Coedwigo neu'r Rheolwr Ardal Lleol y mae'r digwyddiad wedi bod ar ei dir ef
- Talwch sylw i bob arwydd rhybuddio a glynwch at eu cyfarwyddiadau
- Marchogwch ar gerdded neu ar duth oni bai eich bod ar un o'r ychydig draciau wedi eu marcio 'hanner carlam' neu 'carlam'
- Peidiwch â marchogaeth ar safleoedd picnic na llwybrau troed penodedig
- Gadewch fannau parcio a phyrth yn lân a thaclus
- Parciwch mewn mannau penodedig bocsys ceffylau pan fyddant ar gael a pharcio'n gall i adael digon o le i ddefnyddwyr eraill
- Rhowch wybod am rwystrau i Swyddog Rhanbarth y Goedwig neu'r Rheolwr Ardal Lleol
- Byddwch yn ymwybodol y gall fod gan ddefnyddwyr eraill lwybrau penodedig yn yr ardal rydych yn ei defnyddio – gwiriwch yn gyntaf os oes amheuaeth

CANLLAW

- Os ydych yn marchogaeth ar eich pen eich hun dywedwch wrth rywun ble rydych yn mynd ac am ba hyd
- Ewch â ffôn symudol gyda chi rhag ofn y bydd argyfwng (cofiwch fod rhai ardaloedd heb dderbyniad cyflawn neu heb dderbyniad o gwbl)
- Edrychwch ar wefan CC Cymru http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-626jjm i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ba gyfleusterau sydd ar gael. Os oes unrhyw amheuaeth gennych am ble cewch farchogaeth, cysylltwch â'r Swyddfa Rhanbarthau Coedwigo neu'r Rheolwr Ardal Lleol
- Anogir marchogwyr ceffylau i feddu ar eu hyswiriant atebolrwydd trydydd parti eu hunain wrth farchogaeth yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Gwisgwch ddillad hawdd eu gweld fel bod modd i eraill eich gweld

Cyhoeddwyd yn gyntaf Ionawr 2005
Adolygwyd Mehefin 2006
Adolygwyd Mehefin 2008